

**Tasg 2**

# Help!

Rydych chi'n mynd i ysgrifennu erthygl.

1. Ydych chi'n cofio beth yw nodweddion ffurf erthygl?

Trafodwch hyn mewn grŵp ac ysgrifennwch y prif bwyntiau yn eich llyfrau.

Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

2. Ar y dudalen nesaf, ysgrifennwch erthygl at bapur bro i ysbrydoli pobl ifanc i wirfoddoli.

Gallwch chi ddewis elusen neu weithgaredd lleol, neu allwch chi sôn am wirfoddoli'n gyffredinol.

Cofiwch sôn am:

- yr hwyl
- y cyfle i helpu pobl
- y cyfle i wneud ffrindiau
- y cyfle i wella'ch hun
- dysgu sgiliau fel ...
- help ar gyfer y dyfodol
- profiad da.

